**CYNGOR TREF LLANBEDR P.S.**

**COFNODION CYFARFOD MISOL 27ain O FAWRTH 2008 AM 7.30PM**
**NEUADD Y DREF LLANBEDR P.S.**

**1. CROESO'R CADEIRYDD**
Croesawyd pawb i'r Cyfarfod gan y Cadeirydd.

**PRESENNOL**: Cyng. Maer Chris Thomas (Cadeirydd)
Cyng. Andrew Carter, Elsie Dafis,
Hazel Davies, John Davies, Margaret Davies-Evans, Robert Harris, Lynda Mason-George, Robert Phillips, Kistiah Ramaya, Selwyn Walters a Derek Wilson.

**YMDDIHEURIADAU**

Cyng. Cecilia Barton, Greg Evans, Dorothy Williams, Mr Carl Stringer, Y Blismones Jo Grey.

**2. DATGELU BUDDIANT PERSONOL**

Y Maer C.Thomas pan yn trafod y cais am gymorth ariannol oddi wrth Adran yr Urdd, Llanbedr P.S. (Cofnod 9:1)

**3. CADARNHAU COFNODION Y CYFARFOD - 28/02/2008**

Cytunwyd eu bod yn gywir.

**4. MATERION YN YMWNEUD Â'R HEDDLU**

**4.1 Derbyniwyd ateb oddi wrth yr Arolygydd Alun Harries** mewn perthynas â'r Uned Draffig arfaethedig ar gyfer Llanbedr PS. Ni wyddai ffynhonnell y si, ond nid oedd cynlluniau ar y gweill i sefydlu Uned Draffig Ganolog i Geredigion yn Llanbedr PS. Roeddyr Heddlu'n archwilio dulliau o ymgymryd â gwelliannau i'r weithred plismona yn ymwneud â heolydd ond ni fyddai hyn yn debygol o arwain at sefydlu Uned Draffig yn Llambed.

**5. MATERION SY'N CODI O'R COFNODION BLAENOROL**

**5.1 Casglu Papurau Enwebu ar gyfer yr Etholiad**: Casglwyd y Papurau Enwebu ar gyfer yr Etholiad posibl y Cyngor Tref ar y Cyntaf o Fai, yn unol â'r cais oddi wrth y Cyngor Sir yn gofyn am gymorth y Clerc i ddychwelyd Papurau Enwebu y Cyngor Tref presennol mewn un amlen, er mwyn hwyluso'r broses wirio.

**5.2 Cadarnhau – y swydd o Faer a'r Dirprwy-Faer ar gyfer y flwyddyn nesaf:** Petai'r Cynghorydd Wilson a'r Cyng. Walters yn parhau'n aelodau o'r Cyngor Tref ar y cyntaf o Fai, penderfynwyd yn unfrydol y byddai'r Cynghorydd Wilson yn cymryd safle'r Maer a'r Cyng. Walters yn cymryd safle'r Dirprwy-Faer yn ystod y flwyddyn fwrdeistrefol nesaf.

**5.3 Y dyddiad olaf ar gyfer cynnal y CBC** – Un Llais Cymru: dylid cynnal y Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol (CBC) Cynghorau Tref a Chymuned cyn yr 20fed o Fai. Penderfynwyd cynnal y CBC ar ddechrau Mis Mai a'r Seremoni Urddo'r Maer ar y 6ed o Fehefin.

**5.4** **Y Ganolfan Ieuenctid Llambed -** datblygiadau pellach**:** bydd yn agor yn swyddogol ar y 7fed o Fai.

**5.5** **Trefniadau Cittaslow:** trefnwyd cyfarfod ar gyfer y 9fed o Ebrill.

**5.6** **Pwll Nofio Llambed**: ateb a dderbyniwyd oddi wrth CSC i'r llythyr anfonwyd gan y CT yn gresynu'r ffaith fod y CS yn ystyried toriad yn y lefel o gymhorthdal ar gyfer y pwll yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf. Mae'r gostyngiad yn ran o'r arbedion ariannol sy'n ofynnol i'w gweithredu gan y CSC yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf. Mae adolygiad o'r ddarpariaeth nofio ar gyfer ysgolion a'r cyhoedd yn cael ei ymgymryd. Amcan yr adolygiad yw ceisio gwella ansawdd y ddarpariaeth a'i fod yn talu ffordd. Mae'r pyllau nofio gwirfoddol yn flaenllaw yn y ddarpariaeth yma ac ar hyn o bryd meant yn ymgynghori â'r CSC. Mae'r argymhellion a drafodwyd yn cynnig gwell gwasanaeth ar gyfer y cyhoedd pan na ddefnyddir y pyllau gan ysgolion a hefyd yn gwella ansawdd y gwersi nofio. Nid yw'r argymhellion wedi eu cadarnhau, cyn belled. Beth bynnag, cynhaliwyd 5 cyfarfod rhwng y CSC a Phwyllgorau y Pwll Nofio a rhagdybir y cwblheir y cam cyntaf yn y broses cyn y Pasg. Mae'r Cyngor Sir yn gwerthfawrogi cyfraniad pyllau gwirfoddol i ansawdd bywyd trigolion Ceredigion ac yn parhau i weithio mewn partneriaeth â hwy i ddarparu gwasanaeth sy'n ateb i anghenion trigolion Ceredigion.

**5.7** **Ymweliad â'r Ganolfan Gwiltiau Jen Jones** 18/03/2008– adborth: mae'r cofnodion ynghlwm.

**5.8** **Enwebu personau cymwys ar gyfer y *Tlws Cydnabyddiaeth Gwirfoddoli*** *Ceredigion 2008:* penderfynwyd ewebu Mr Noel Davies, mewn cydnabyddiaeth o'i gyfraniad gwerthfawr at y *Lleng Prydeinig.*

**5.9** **3 Safle parcio ar gyfer yr Anabl ym maes parcio'r Rookery**: e-bost oddi wrth Mr Alun Davies, Adran y Priffyrdd, Eiddo a Gwaith CSC yn mynegi na fedrai ragweld unrhyw broblem ar gyfer y ddarpariaeth o leoedd parcio ar gyfer yr anabl ym maes parcio'r Rookery. Mae'r arwynebedd bae ar gyfer yr anabl yn fwy nag arferol ac am y rheswm hwn bydd angen arwynebedd sy'n fwy na 3 bae arferol. Byddai'n edrych mewn i'r mater.

**5.10** **Y Ddarpariaeth o Arwyddion: Cymdeithas Efeillio Llambed** – y sefyllfa bresennol: penderfynwyd i wahodd aelod o'r CSC i'r cyfarfod nesaf i drafod yr opsiynau posibl ar gyfer arwyddion newydd i'r dref.

**5.11** **Biniau ar gyfer gwaredu dom cŵn:** mae'r CSC yn darparu biniau o'r fath. Penderfynwyd y dylai aelodau'r Pwyllgor Palmantau ddod o hyd i leoedd addas are eu cyfer, o fewn y dref.

**5.12** **Biniau ar gyfer casglu gwastraff ailgylchadwy:** nid yw'r CSC yn darparu biniau o'r fath. Awgrymwyd y dylid cysylltu â Chyngor Tref Aberystwyth am gyngor pellach.

**5.13** **Arwyddion – ar gyfer yr ysgol gynradd newydd**: bydd y gwaith yn cael ei ymgymryd yn ystod gwyliau'r Pasg.

**5.14** **Y sefyllfa parthed materion traffig eraill**: yn disgwyl ateb oddi wrth y Cyngor Sir parthed:

**5.14.1 Diddymu'r llinellau melyn** o flaen yr Hen Ysgol Gynradd;
**5.14.2 Yr Arwydd "Rhoi Cyfle I Draffig o Gyfeiriad Arall"" ** Heol y Porthmyn
**5.14.3 Y sement o gwmpas y "Man-hole" ger Archfarchnad Somerfield**
**5.14.4 Sgriwiau'n rhydd-**arwydd tu allan i Neuadd y Dref
**5.14.5 Y ddarpariaeth o arwyddion yn gwahardd loriau trwm hir a llwythog, rhag teithio** dros Fryn-yr-Eglwys.

**6. GOHEBIAETH**
**Cofnod 72/2007**

**6.1 Gwelediageth Leol:** Canllawiau Statudol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar ddatblygu a chyflenwi strategaeth cymunedol: er gwybodaeth

**6.2 Egwyddorion Gweinyddiaeth Dda & Egwyddorion Unioni** Cam – Ombwdsmon Cymru: er gwybodaeth

**6.3 Fframwaith Cenedlaethol Drafft ar gyfer Gwasanaeth Tân ac Achub** Cymru at ddiben Ymgynghori 2008-11 – Llywodraeth Cynulliad Cymru: er gwybodaeth.

**6.4 Rhaglen Rhwydwaith Swyddfa'r Post Cyf ar gyfer yr Ardal**: Cyfarfod 26/03/2008 Swyddfeydd CSC, Penmorfa, Aberaeron: yn ystod y cyfarfod hwn soniodd y Cyng. Harris am y gwersi a ddysgwyd pan gafodd y Swyddfa Bost Llambed ei hadleoli o Stryd Y Coleg i'r Arfachnad y Co-op yn ystod yr Haf 2007.

**6.4 Gohebiaeth Eraill: er gwybodaeth yn unig.**

**7. MENTER LLAMBED**
**Cofnod 73/2007**
Derbyniwyd adroddiad oddi wrth y Cyng. G.Evans, sydd wedi ei atodi i'r cofnodion.

**8. CYNLLUNIO**

**8.1 CEISIADAU**

**8.1.1 Newid Defnydd i A3,** 19 Stryd Fawr, Llambed: Ymgeisyd: Mr N.Wright: dim gwrthwynebiad.

**8.1.2 Newid defnydd a chodi estyniad ar gyfer lle i fyw: Rhif 7**, Stryd y Farchnad, Llambed: Ymgeiswyr: Mr & Mrs R Band: dim gwrthwynebiad.

**8.1.3 Codi Estyniad i'r gegin bresennol:** Goedwig, Heol Llanwnnen, Ymgeisydd: Mr E.Richards: dim gwrthwynebiad.

**8.2 CANIATÂD**

**Mae'r Cyngor Sir wedi caniatau:**

**8.2.1 Codi llinellau trydan**: Llambed i Dregaron, Western Power Distribution: dim gwrthwynebiad.

**8.3 GWRTHODWYD CANIATÂD gan y Cyngor Sir**

**8.3.1 Adeiladu 2 fflat, 1 Sgwâr Harford, Llambed.** Ymgeisydd: Mr K Williams
Mae'r cais yn amharu ar gymeriad ac amwynderau'r ardal, yn golygu fod y stâd yn cael ei or-ddatblygu , nid yw'n cyfateb i ddyluniad ac arddangosiad allanol ardal cadwraeth, byddai'n cael effaith anffafriol ar ddiogelwch a symudiad traffig.

**8.4 Cyfarfod – Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion CSC: adborth: 17/03/2008:** amlinellwyd amserlen y Cynllun Datblygu Lleol a Chyflwyno'r Cytundeb

Cyflenwi, a Chytuneb yn ei gylch ym Mehefin 2007 i'w fabwysiadu yng Ngwanwyn 2012. Gan mai system â phwyslais ar y cynllun datblygu sydd yng Nghymru, mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn hynod o bwysig pan benderfynir ar geisiadau cynllunio. Mae'r cynllun yn nodi bwriadau a pholisiau Cyngor Sir Ceredigion ynghylch datblygiadau a defnydd tir yn ei ardal. Unwaith y bydd y cynllun yn cael ei fabwysiadu bydd rhan fwyaf o'r penderfyniadau'n cael eu seilio ar gynnwys y Cynllun Datblygu Lleol, felly mae'r CDLl yn rhoi rhyw syniad o ba ddatblygiadau gaiff ac na chaiff eu caniatau dros gyfnod y cynllun. Mae Cynghorau Tref a Chymuned yn hanfodol yn y broses o baratoi Cynlluniau Datblygu Lleol gan eu bod yn berchen ar wybodaeth leol orau.

**8.5 Ail-gyfle: Cynllun Datblygu Lleol** Ceredigion Ymgynhori Cyhoeddus Ynghylch Adroddiad Cwmpasu'r Arfarniad o Gynaliadwyedd a'r Asesiad Amgylcheddol Strategol; estyniad o 5 wythnos i gyflwyno sylwadau (canol-dydd 28ain Ebrill).

**8.6 Ymgynghori ynghylch Safleoedd Posib Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion**. Fel rhan o'r broses o lunio'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) mae'r Cyngor Sir yn gwahodd datblygwyr, darparwyr gwasanaethau, perchenogion tir ac eraill sydd â diddordeb mewn tir i gyflwyno safleoedd yr hoffent iddynt gael eu hystyried ar gyfe eu datblygu neu at ddefnydd arall drwy gyfrwng y CDLl. Bydd yn rhaid dychwelyd y ffurflenni wedi eu llanw ynghŷd â'r mapiau, erbyn hanner dydd 2 Mai 2008.

## 9. CYLLID

### 9.1 Cofnodion 75/2007

| | Gwein. | Cynnal. | Ad137 | TAW |
|---|---|---|---|---|
| **INCWM** | | | | |
| **Grant Goleuadau Nadolig CSC** | | £520.00 | | |
| **GWARIANT** | | | | |
| | £ | £ | £ | £ |
| Cyflog y Clerc: net – Chwefror 2008 | 429.94 | | | |
| Treth ac YC – Chwefror 2008 | 111.72 | | | |
| Golau a Gwres Chwefror 2008 | 20.00 | | | |
| Eisteddfod yr Urdd Llandudno 2008 | | | 250.00 | |
| Yswiriant Young at Heart | 207.62 | | | |
| CTCC Ionawr i Mawth 2008 | | 2,269.00 | | 397.08 |
| CYFANSWM | 769.28 | 2,269.00 | 250.00 | 397.08 |
| **CYFANSWM Y GWARIANT** | **3,685.36** | | | |

**9.2 Penderfynwyd i beidio â** chyfrannu tuag at y *Ganolfan Therapi Ocsigen,* Aberteifi ac i'r Sefydliad *Scope* (yn helpu plant ac oedolion anabl yng Nghymru a Lloegr).

**9.3 Archwiliwr mewnol ar gyfer y Cyngor Tref:** heb ddod o hyd i berson cymwys.

## 10. IS-BWYLLGORAU

**Cofnod 76/2007**

### 10.1 LLWYBRAU CERDDED gan gynnwys Parc-yr-Orsedd

**10.1.1 Trafod cynigion ar gyfer torri'r gwair ym Mharc yr Orsedd a chynnal llwybrau troed yn ystod misoedd yr haf**: Derbyniwyd un

cynnig oddi wrth Mr E.Williams, Blodfryn, Llambed. Penderfynwyd DERBYN y cynnig o £510 ar gyfer un toriad y mis ym Mharc-yr-Orsedd yn ystod misoedd Ebrill, Mai, Mehefin, Gorffennaf, Awst a Medi. Bydd rhaid symud toriadau'r borfa o'r safle. Penderfynwyd hefyd i dderbyn y cynnig beunyddiol o £90 ar gyfer cynnal a chadw'r llwybrau troed.

**10.1.2 Adleoli'r Bloc o graig ym Mharc-yr-orsedd:** cynhaliwd gyfarfod safle rhwng y Maer a chynrychiolydd y *Cwmni Playworld* ar y 5ed o Fawrth, gyda'r bwriad o adleoli'r bloc o graig am resymau Diogelwch ac Iechyd. Y Clerc i gysylltu â'r cwmni i ddarganfod pryd yn union caiff y gwaith ei gyflawni.

**10.1.3 Trwsio'r ffens/mynedfa newydd ar gyfer Parc-yr-Orsedd**- y Clerc i gysylltu a Ch. S.C i ddod o hyd i'r sefyllfa parthed y mater tyma.

**10.1.4 Coedwig Gymunedol Long Wood Community Woodland**: cais ar gyfer mynediad i'r anabl i Goedwig Olwen: cefnogwyd y cais a phenderfynwyd cario allan gwelliannau i'r llwybr fel rhan o'r Cynllun Llwybrau Cymunedol (2008-09).

**10.2 PALMANTAU**
**Adroddywd fod namau'n bodoli ar y palmantau**

**10.2.1 Sydd wedi eu lleoli** rhwng Siop y Spar a Siop Gwilym Price;
**10.2.2 Ger y** Cowrtiau'r Swyddfa'r Post.

-i adrodd y namau at sylw'r CSC.

**10.3 GOLEUADAU STRYD**

**10.3.1 Y sefyllfa parthed gwellianau i'r goleuadau ar Heol y Bryn gan ddefnyddio deunyddiau arbed ynni na sydd yn gwneud drwg â'r amgylchfyd;** yn disgwyl ateb oddi wrtyh GSC.

**10.3.2 Y golau stryd ger Caffi Contii yn ddiffygiol:** hysbysu'r Cyngor Sir.
**10.3.3 Y goalu stryd ar Heol Tregaron- yn dal ynghynn drwy'r dydd-** hysbysu'r Cyngor Sir

**10.4 CTCC**

**10.4.1 Yr Adroddiad Misol – Chwefror – CSC**: derbyniwyd un cais, oddi wrth yr Heddlu i edrych ar ddeunydd digidol. Mae'r broblem o "Ddim Llun" yn parhau ar un camera. Mae'r offer priodol ar gyfer atgyweirio'r problemau a gyfeiriwyd atynt yn y cofnodion blaenorol wedi eu harchebu a bydd contractwyr yn ymgymryd â'r gwaith yn ystod y dyfodol agos.

**10.4.2 Cytundeb TROSGLWYDDIAD CTCC – RHWNG CSC A'R CYNGOR TREF LLAMBED**: wedi ei sefydlu ac yn rhedeg o'r 1af Ionawr 2008 tan 31 o Fawrth 2009, yn flynyddol gan ystyried y Cymal Terfyn.

**Darparu gwasanaeth**
Bydd y CSC yn darparu lled-band o ansawdd i drosglwyddo'r lluniau CTCC o Lambed i ganolfan CTCC y CSC sydd wedi ei leoli yng Ngorsaf Heddlu Aberystwyth. Bydd y gwasanaeth yn cynnwys y trosglwyddiad yn ymwneud â 6 camera am bris o £12,000 y flwyddyn yn ddyledus ar y 1af o Ebrill, bob blwyddyn. Gellir

ychwanegu trosglwyddiad yn deillio o gamerau ychwanegol at uchafswm o 8 gamera am gost ychwanegol o £2,000 y camera. Os bydd angen mwy nag 8 camera, bydd gan GSC yr hawl i adolygu'r gofynion, y lled-band a'r gost. Os bydd toriad yn y cysylltiadau cyfathrebu rhwng Llambed ac Aberystwyth, y CSC fydd yn ymgymryd â'r trefniadau atgyweirio gyda'r darparwyr y ddolen gyswllt gyfathrebu, pan fydd cytundeb ymateb o fewn 8awr gwaith mewn lle.

**Gorffen y Cytundeb**: Gall y CSC neu'r Cyngor Tref gyflwyno Rhybudd o 6 mis Terfynu'r Cytundeb.

**10.4.3 Ymweliad â'r Ystafell Reoli**: derbyniwyd e-bost oddi wrth Mr Bleddyn Jones CSC yn cyfleu bod yr Ymgynghorydd wedi ei gyfarwyddo i ddatrys y problemau'n ymwneud â rheoli'r camerau. Ar ôl iddo dderbyn y rhaglen waith bydd yn cysylltu â'r Cyngor Tref i drefnu cyfarfod. Ni ddylai cyfarfod min-nos pan yn dywyll, fod yn broblem.

**11. U.F.A.**
**Cofnod 77/2007**

**11.1 Penderfynwyd i anfon llythyr yn llongyfarch mudiadau'r dref** am gipio'r wobr "Diogelwch Bwyd 2008" yn ddiweddar, sef Popty'r Briwsion, Canolfan Gofal Gelli Llon, Cartref Hafan-Deg a'r Caffi Hedyn Mwstard.

**11.2 Penderfynwyd anfon llythyr at 3 aelod o'r Geidiau** d/l Mrs Judith Walters, sydd wedi cipio'r "Tlws Duc Caredin" .

**12 DYDDIAD Y CYFARFODYDD NESAF**
**Cofnod 78/2007**

**PENDERFYNWYD** petai Etholiad Cyngor Tref yn cymryd lle ar y Cyntaf o Fai, ni gynhelir y Cyfarfod Misol o'r 24ain o Ebrill. Os na gynhelir Etholiad o'r Cyngor Tref, bydd trefniadau arferol yn parhau.

**Dyddiad y Cyfarfod nesaf: Nos Iau 24ain Ebrill am 7:30pm.**

**Nos Iau 8fed o Fai 7:00pm** – CBC – Datganiad Derbyn Swydd ac arwyddo'r Côd Ymddygiad

**Nos Sadwrn 31ain o Fai 7:30pm,** Castle-Green, Llambed – Cinio Gadael y Maer

**Nos Wener 6ed o Fehefin 6:30pm** – Seremoni Urddo'r Maer

**---------- Arwyddwyd**

**---------- Dyddiad**